



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Ebrill 2015
Rhifyn 214

Oedfaon y Sul

5 Ebrill **Sul y Pasg** Bore : **Y Gweinidog**. Bydd oedfa'r bore yn oedfa arbennig i ddathlu'r Pasg pryd y gweinyddir y Cymun. Yn ystod yr oedfa, bydd cyfle i werthfawrogi gwasanaeth y Parchedig Gwenda Richards ac i ddymuno'n dda iddi yn ei gofalaeth newydd. Ceir cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen yn y theatr yn dilyn yr oedfa

Hwyr: (6pm): **Uno yn Eglwys Llanbeblig**

12 Ebrill - Bore a Hwyr: **Y Parchg R O Jones, y Gaerwen**

19 Ebrill - Bore: **Oedfa yng ngofal Mr Eifion Harding**

26 Ebrill - Bore a Hwyr: **Y Parchg Megan Williams**

3 Mai - Bore a Hwyr: **Uno yn Salem**

10 Mai - Bore: **Oedfa yng ngofal Mr William Davies**

www.henaduriaetharfon.org



Digwyddiadau Mis Ebrill

Nos Iau 2 Ebrill (7pm) Oedfa Nos Iau Cablyd yn Noddfa

Bore Gwener y Groglith 3 Ebrill (10am) Oedfa Gymun yn Ebeneser a gorymdaith i ddilyn

Nos Lun 20 Ebrill - **Cinio Cymdeithas Chwiorydd Seilo yn y Clwb Golff**

Taro Mewn yn Salem bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11am

Wythnos Cymorth Cristnogol
10 - 16 Mai 2014

Am Eiliad

Mae'n anodd credu bod pedair blynedd ar ddeg wedi mynd heibio ers i mi ddychwelyd i Gaernarfon a chychwyn ar fy nyletswyddau fel gweinidog eglwys Seilo. Cyrhaeddais yn frwdfrydig, er efallai ychydig yn betrusgar, a hynny am sawl rheswm. Yn sicr, un rheswm oedd oherwydd mod i'n hannu o'r dre a'r ymadrodd 'nid yw proffwyd yn gymeradwy yn ei wlad ei hun' yng nghefn fy meddwl. Rheswm arall oedd mai fi fyddai'r wraig gynta i fod yn weinidoag ar yr eglwys, ac roeddwn yn meddwl tybed be fyddai'r ymateb i hynny. Erbyn hyn, a finna ar fin gadael Seilo, gallaf edrych yn ôl ar gyfnod hapus yng nghwmni aelodau a ffrindiau.

Pe bawn yn pwyso a mesur gweithgarwch y blynyddoedd yn ofalus, mae'n debyg y gwelwn lwyddiannau a methiannau, rhinweddau a gwendidau. Yn 2001 roedd rhif aelodaeth yr eglwys yn llawer iawn mwy na'r hyn ydyw heddiw. Collwyd ugeiniau trwy farwolaeth yn ystod y blynyddoedd, ac roedd nifer helaeth ar y llyfrau nad oeddent byth yn mynychu oedfa nac ychwaith yn cyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at waith yr eglwys. Mae gofynion ariannol eglwys Seilo yn fawr, a chost

cadw'r adeilad yn faich, ac o'r herwydd rhaid wrth gyfraniadau teilwng gan yr aelodau i gadw a chynnal yr achos. Wedi dweud cymaint â hynny, dyletswydd aelodau yw nid yn unig cynnal yr Achos ond cynnal ei gilydd yn ogystal, ac egwyddor bwysig i'w chofio yw y dylai'r cryf gynnal y gwan. Mae'n gyfnod tyngedfennol ar anghydfurfiaeth yng Nghymru a'r angen am ffyddlondeb ac ymlyniad i'r eglwys yn fwy nag erioed. Apeliaf arnoch oll i ystyried eich aelodaeth eglwysig o ddifri ac ymroi o'r newydd i waith y Deyrnas.

Wrth ymadael carwn ddiolch i bawb a fu'n gymaint o gefn i mi yn ystod fy nghyfnod yn Seilo. Diolch arbennig i'r swyddogion am eu cymorth. Nid yw gofod yn caniatáu i mi gyfeirio atynt yn unigol, ond teimlaf reidrwydd i gyfeirio'n benodol at un y bu ei lafur yn gymaint o gymorth i mi. Bu ymroddiad Dr Gwyn Lewis i'w swydd fel ysgrifennydd yr eglwys yn gaffaeliad amhrisiadwy, a diolchaf o waelod calon iddo am ei gefnogaeth barod. Bydd gennyf hiraeth gwirioneddol am Gymdeithas y Chwiorydd oherwydd gwn fod perthynas agos a hyfryd wedi tyfu rhyngom yng ngwrs y blynyddoedd. Fy mraint fu ceisio'u harwain, a bu'r gwaith o godi arian sylweddol i goffrau'r

eglwys ac yn arbennig at achosion dyngarol yn brofiad hynod o bleserus. Diolchaf am eu brwdfrydedd ac yn arbennig am eu cyfeillgarwch.

Mae cynnal ysgol Sul y dyddiau hyn yn anodd gan fod cymaint o weithgareddau deniadol i blant yn digwydd ar y Sul; ond mae ysgol Sul o hyd yn Seilo, a honno'n un gadarn a byw iawn. Diolchaf am ymroddiad a brwdfrydedd yr athrawon, ac yn arbennig yr arolygydd, Ann Llywelyn. Bu hi'n gefn mawr i mi ac yn gymorth i'm cadw mewn cyswllt â phlant yr eglwys.

Diolchaf am y fraint o gael ymweld ag aelwydydd aelodau'r eglwys mewn adegau o hawddfyd ac adfyd. Mae gennyf atgofion hynod o felys am ffrindiau sydd bellach wedi'n gadael ni. Bu 'r gymdeithas yn felys a'r colli yn dristwch.

Fel mae un cyfnod yn dirwyn i ben mae un arall yn cychwyn. Felly y bu hi erioed, ac yn sicr felly mae hi yn fy hanes i fel yn hanes Seilo heddiw. Dymunaf yn dda i'r eglwys i'r dyfodol gan obeithio y ceir olynnydd i mi yn fuan. Boed i fendith Duw fod arnoch un ac oll.

Gwenda

Coffâd

Geraint Llywelyn Jones, Isgraig, Lôn Ddewi

Cofiwn yn annwyl iawn am Geraint fel un o gymwynaswyr eglwys Seilo. Gweithiodd yn ddiwyd a thawel yn y cefndir ac am flynyddoedd bu'n arwain y Clwb Cerdded a roddodd gymaint o bleser i gynifer o aelodau'r eglwys. Roedd yn adnabod pob twll a chornel o Eryri ac ni roddai dim fwy o bleser iddo na cherdded ei llwybrau a'i llethrau. Roedd yn ŵr gwybodus wedi darllen yn eang ac yn hanesydd lleol brwd. Bu'n ŵr ffyddlon i Dorothy, yn dad heb ei ail i Bethan a Delyth ac yn daid oedd yn meddwl y byd o Sioned a Ffion. Diolchwn amdano a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu yn eu profedigaeth.

Mair Parry Owen, 3 Llys Gwyn (Llwyn Celyn, Stryd Dinorwig gynt)

Nid oedd tref i'w chymharu â Chaernarfon na chapel i'w gymharu â Moreia yng ngolwg Mair Parry Owen. Hanai o'r dre a bu hi a'i theulu yn aelodau ffyddlon yng nghapel Moreia. Roedd ganddi hanesion diddorol am y dre a byddai ei sgwrs bob amser yn felys. Bu'n ofalus iawn o'i theulu ar hyd y blynyddoedd a Helen oedd kannwyll ei llygaid. Cydymdeilwn â Helen, a fu mor ofalus o'i mam, yn ei phrofedigaeth

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Mrs Wenna Elen Jones**, 24 Ffordd Hampton sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar ac â **Mr Glyn Hughes**, 19 Heol Elinor, sydd wedi colli ei frawd.

Cydymdeimlwn â'r teuluoedd yn eu colledd a dymuno Duw yn nerth ac yn gynhaliaeth iddynt.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb a fu'n wael yn ystod y mis. Mae **Mrs Helena Jones Owen**, Llys yr Awel, Lôn Ysgubor Wen, yn Ysbyty Gwynedd. Treuliodd **Mr Wil Blackwood**, Trem Eryri, Rhosbodrual, gyfnod yn Ysbyty Stoke ac mae ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Da yw deall bod **Mrs. Alice Hughes**, 34 Stryd Margaret, yn gwella ac wedi mynd adref yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Eryri. Derbyniodd **Mrs Meira Rogers**, Meifod, 8 Cae Berllan, driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar fel y gwnaeth **Mrs Menai Parry**, 16 Llys Gwyn, a da yw deall eu bod hwythau'n gwella. Mae **Mrs Jennie Hewitt**, 8 Ala Las, yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd.

Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau i **Mrs Menna Thomas**, Wigoedd, Parc Muriau, ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 yn ddiweddar. Bydd **Mrs Derwena Jones**, Llwyn y Gân, 6 Ala Las, yn 90 ar 23 Ebrill. Dymunwn benblwydd hapus iddi ar y diwrnod.

Penblwydd Priodas

Llongyfarchiadau i **Don ac Alice Evans**, Cartref, Cae Berllan, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Bydd **Owie ac Annie Williams**, 47 Stryd Victoria, yn dathlu eu Priodas Ddiamwnt ar 2 Ebrill. Dymunwn fendith ar y dathlu.

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifolam y blodau yn Seilo yn ystod mis Ebrill: **Mrs Verona Jones** (5); **Mrs Avril Hughes** (12); **Mary a Mark Land** (19); **Mrs Kitty Roberts** (26)

Cymdeithas y Chwiorydd

Nos Lun, 9 Mawrth, cyfarfu'r Gymdeithas dan lywyddiaeth Mrs Janice Jones, a chafwyd noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni Mrs Edwina Morgan. Testun ei sgwrs oedd 'Crwydro' a chyda chymorth lluniau rhannodd rai o brofiadau ei hamrywiol deithiau. Yn eu plith roedd ymweliadau â'r Aifft, Patagonia, Kenya, Awstralia ac un o Ynysoedd y Caribï. Diolchodd y llywydd iddi am noson ddiddorol a chartrefol ei naws.

Cynhelir sinio blynyddol y Gymdeithas yn y Clwb Golff nos Lun, 20 Ebrill. Enwau ynghyd â thâl o £14.95 i Mrs Alice Evans erbyn dydd Sul, 12 Ebrill.

Diolch

Diolchir i **Mrs Angharad Rhys Williams** am ei gwaith yn golygu'r Bont yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth iddi hi ddymuno ymddeol o'i chyfrifoldebau bydd **Iolo a Meleri Thomas** yn ymgymeryd â'r gwaith. O hyn ymlaen dylid anfon pob gohebiaeth atynt hwy. (675333).

Cyfraniadau erbyn 20 Ebrill os gwelir yn dda